Teitl y Swydd:	**Staff Gweithgareddau Merlota x2 swydd**
Math o gontract:	**Swydd barhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos)**
Graddfa:	**Ar raddfa 2: £19,601 - £22,058 y flwyddyn**
Lleoliad:	**Gwersyll yr Urdd, Llangrannog**

Amdanom ni

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru sy'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud â chwaraeon, y celfyddydau, gwirfoddoli, hyfforddiant, gwaith dyngarol, rhyngwladol a phreswyl, sy'n eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned a'r byd yn ehangach.

Ers ei sefydlu yn 1922, mae'r mudiad wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i eraill ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru. Hyd yma mae dros 4 miliwn o bobl wedi bod yn aelodau o'r Urdd ac eleni mae'r mudiad yn edrych ymlaen at ddathlu ei ganmlwyddiant a chydag nifer o ddigwyddiadau mawr wedi'u cynllunio'n arbennig.

Yr Urdd yw cyflogwr trydydd sector cyfrwng Cymraeg mwyaf yng Nghymru, gyda dros 200 o staff wedi'u lleoli mewn 12 swyddfa ledled Cymru. Roedd ei drosiant blynyddol cyn Covid bron yn £12M, a daeth â gwerth economaidd o £32M i Gymru yn ystod 2019/20.

Y Swydd

Darparu gwasanaeth cyflawn a phroffesiynol fel y gall y cwsmeriaid fwynhau amrediad eang o weithgareddau diogel, cyffrous sy'n cynnig cyfleoedd a phrofiad dwyieithog, cymdeithasol ac addysgiadol i blant a phobl ifanc.
I chwarae rhan arwyddocaol yn weithrediad a datblygiad y gweithgareddau a rhediad esmwyth y gwersyll.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Iestyn Evans (Rheolwr Cwsmer) ar 01239 652140 neu iestyn@urdd.org neu Dylan Jones ar dylanj@urdd.org

Anfonwch eich CV atom ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau – 31 Hydref 2022 (oherwydd natur yr angen ar apwyntio i'r swydd rydym yn cadw'r hawl i gau'n gynnar os ydym yn derbyn digon o geisiadau safonnol)

Mae'r Urdd yn cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith a gweithgareddau. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	**STAFF GWEITHGAREDDAU MERLOTA**	**Lleoliad:**	**Gwersyll yr Urdd, Llangrannog**
Adran:	**Gwersyll yr Urdd, Llangrannog**	**Rheolaeth Llinell:**	**Tîm o Staff Gweithgareddau llawn a rhan amser**
Yn adrodd i:	**Rheolwr Cwsmer**	**Graddfa:**	**2**

Prif bwrpas y swydd:

Darparu gwasanaeth cyflawn a phroffesiynol fel y gall y cwsmeriaid fwynhau amrediad eang o weithgareddau diogel, cyffrous sy'n cynnig cyfleoedd a phrofiad dwyieithog, cymdeithasol ac addysgiadol i blant a phobl ifanc. Gyda ffocws penodol gofal y ceffylau, ganolfan ferlota a gweithgareddau merlota'r gwersyll
I chwarae rhan arwyddocaol yn weithrediad a datblygiad y gweithgareddau a rhediad esmwyth y ganolfan merlota a'r gwersyll.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

- Cyflwyno, arwain a hyfforddi gweithgareddau gwersyll trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog.
- Sicrhau bod y preswylwyr yn mwynhau eu hunain mewn amgylchedd diogel a bod pwyntiau addysgiadol y gweithgareddau yn cael eu cyflawni
- Gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n hyrwyddo polisi gofal cwsmeriaid y gwersyll
- Dilyn cod ac ymarfer gwaith llym y Gwersyll ar gyfer y gweithgareddau
- Sicrhau bod y gweithgareddau a'r offer yn cyrraedd y safonau angenrheidiol, disgwyliedig, a'u bod yn barod ac ar gael pan fo angen.
- Sicrhau bod y cyfarwyddyd a roir yn cyrraedd safonau uchel disgwyliedig y Gwersyll.
- Cydymffurfio â rheolau Iechyd a Diogelwch a bod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n deillio o'r gweithgareddau
- Sicrhau bod yr holl waith papur perthnasol h.y. cofnodion damweiniau, archwiliadau (dyddiol wythnosol a misol), cofnodion cynnal a chadw'r gweithgareddau'n cael eu llenwi a'u cadw'n gyfredol
- Cadw mannau lle y gwneir gweithgareddau mewn trefn ac yn ddiogel
- Cynghori'r rheolwr llinell ynghylch unrhyw awgrymiadau ar y ffordd y gellir gwella'r gweithgareddau a chynorthwyo yn eu datblygiad
- Cynorthwyo fel bo angen yn rhediad y Gwersyll yn gyffredinol
- Cyflwyno, arwain a sicrhau rhediad esmwyth i'r rhaglen gweithgareddau nos i'r gwersyllwyr ar gyhoedd sy'n ymweld pan ar ddyletswydd hwyr
- Yn gyfrifol am y grwpiau sydd yn y gwersyll pan ar ddyletswydd hwyr (mewn cydweithrediad ar reolwr sydd ar alwad i'r gwersyll)

Cyffredinol

- Ymgymryd â dyletswyddau priodol eraill sy'n cyfrannu at rediad esmwyth y Gwersyll a'r gweithgareddau

Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

<u>Hanfodol</u>

- Y gallu i gyfathrebu, dysgu a hyfforddi yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)

- Profiad o weithio a chymhwyster hyfforddi gyda Cheffylau
- Profiad ar allu i arwain, hyfforddi, cyfathrebu ac ysgogi plant, phobl ifanc ac oedolion
- Profiad ar allu i weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion arbennig
- Unigolion egnïol, brwdfrydig a threfnus
- Profiad a diddordeb mewn gweithgareddau chwaraeon, hamdden ar awyr agored
- Parodrwydd i weithio yn unigol ac fel rhan o dîm
- Hyblygrwydd a pharodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol
- Sgiliau cyflwyno ardderchog
- Trwydded gyrru car
- Y gallu i arwain a chyflwyno gweithgareddau (sy'n cynnwys twmpath) grwpiau o 5 i 100
- Y gallu i ddatblygu gweithgareddau
- Y gallu i ddelio gydag ymddygiad heriol pan fo angen
- Ymwybyddiaeth ac agwedd cyfrifol tuag at Iechyd a Diogelwch

Dymunol

- Cymhwyster Achub Bywyd (Pool Attendant /Lifeguard)
- Cymhwyster Cymorth Cyntaf
- Chymhwyster hyfforddi Merlota a gofal ceffylau
- Cymhwyster EASI Goruchwylydd Lefel 1 Beiciau Modur *
- Cymhwyster Hyfforddi Dringo
- ERCA *
- Single Pitch Award
- Indoor Climbing Award
- Cymhwyster Hyfforddi Saethyddiaeth *
- Cymhwyster Hyfforddwr Chwaraeon yn y Gymuned
- Cymhwyster hyfforddi chwaraeon eraill ac awyr agored
- Gradd neu gymhwyster uwch perthnasol
- Trwydded gyrru Bws Mini (D1 neu debyg)
- Profiad o weithio mewn canolfan chwaraeon a hamdden neu/ac awyr agored
- Gwybodus am Wersyll Llangrannog ar Urdd

Nodiadau i ymgeiswyr:

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*

- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu

dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.
Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Tachwedd 2020 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff**)**

Teitl y swydd:	**STAFF GWEITHGAREDDAU MERLOTA**
Yn atebol i:	**Rheolwr Gofal Cwsmer y Gwersyll a thrwyddo ef i Gyfarwyddwr y Gwersyll.**
Cyflog:	**Ar raddfa 2: £19,601 - £22,058**
Cytundeb:	Parhaol
Oriau gwaith:	• 35 awr yr wythnos • Golyga dyletswyddau'r swydd hon y bydd rhaid gweithio bob yn ail benwythnos ac ar Wyliau'r Banc. Bydd hawl i 2 ddiwrnod i ffwrdd yn ystod yr wythnos ar ôl gweithio penwythnos a 2 ddiwrnod "in lieu" am weithio Gŵyl y Banc. • Oriau gwaith arferol: 9a.m.-5p.m. • Bydd shifft 2p.m.-10p.m. pob tua 6 wythnos. Bydd rhaid gweithio tu allan i'r oriau hyn o bryd i'w gilydd
Lleoliad:	Gwersyll yr Urdd, Llangrannog
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.
Yswiriant Bywyd:	Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70.